**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN**

**(GOSOD TERFYN CYFLYMDER O 30 MYA) (Rhif 2) 2024**

---

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato fel "y Cyngor" o hyn ymlaen), gan ddefnyddio ei bwerau o dan Adrannau 84(1)(a), 84(1)(c), 84(2) a 124 a pharagraff 27 o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Cyfeirir at y Gorchymyn hwn fel "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gosod Terfyn Cyflymder o 30mya) (Rhif 2) 2024" a bydd yn cael ei weithredu ar y diwrnod o 2024.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

   (a) Ystyr 'Map' yw map sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin gyfan sydd i'w ddarllen ar y cyd â'r Gorchymyn ac sy'n ffurfio rhan o'r Gorchymyn;

   (b) Ystyr 'Teilsen Map' yw petryal grid sy'n troshaenu'r Map sy'n dynodi ardal yn Sir Gaerfyrddin lle mae gan bob teilsen Gyfeirnod Teilsen unigryw;

   (c) Ystyr 'Cyfeirnod Teilsen' yw'r cyfeirnod a roddir i bob Teilsen Map gan ddechrau yn y pen uchaf ar y chwith a chynyddu'n rhifiadol ar draws y grid yn llorweddol ac yn nhrefn yr wyddor i lawr y grid yn fertigol;

   (d) Ystyr "Atodlen Map" yw'r casgliad o Deils Map a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn sy'n dangos, drwy gyfeirio at Allwedd yr Atodlen Map:

      (i) y darnau o ffordd sy'n ddarostyngedig i'r terfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn, a'r

      (ii) darnau o ffordd (neu rannau ohonynt) sy'n peidio â bod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Gorchymyn a diddymir yma;

(e) Ystyr "Allwedd yr Atodlen Map" yw Allwedd yr Atodlen Map a gymeradwywyd ar y Deilsen Map, gan nodi:

(i) y darnau ffordd y mae'r terfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn berthnasol iddynt, a

(ii) y darnau hynny o'r ffordd (neu rannau ohonynt) sy'n peidio â bod yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a osodwyd gan y Gorchymyn a ddiddymir yma;

(f) Ystyr 'cerbyd esempt' yw:

(i) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn Adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984;

(ii) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r Lluoedd Arbennig ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol neu at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

(g) Ystyr 'Lluoedd Arbennig' yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30mya ar hyd y darnau ffyrdd a ddangosir ar yr Atodlen Map a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. ‘Mae 'Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Gosod Terfyn Cyflymder 30mya) 2023' a 'Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (B4309 Cwmffrwd i Bump-hewl a'r B4306 Cwmffrwd) (Gosod Terfyn Cyflymder 40 a 50mya) 2013' yn cael eu diddymu i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darnau o ffyrdd a nodwyd ar yr Atodlen Map a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Caiff ‘Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Ffordd Ddosbarth III, Bwlchnewydd) (Gosod Terfyn Cyflymder o 40mya) 2000' a 'Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Tŷ Mawr, Llanybydder) (Gosod Terfyn Cyflymder o 40mya) 2004' trwy hyn eu diddymu.

**GWNAED** dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar y diwrnod o Dwy Fil a Dau Ddeg Pedwar

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN )
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )
ar y ddogfen hon )
ym mhresenoldeb:- )

---------------------------------------------

**Linda Rees-Jones**

**Pennaeth Gweinyddiaeth a’r Gyfraith**

**Atodlen 1**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| AA34 | AA39 | OC9 | AE38 | AF29 |
| AF30 | AF32 | AI13 | AI14 | AI31 |
| AJ31 | AO24 | AO29 | N32 | N33 |
| O31 | P11 | R14 | S18 | S22 |
| A27 | T27 | U35 | V26 | V35 |
| W28 | W39 | Y30 | Z34 | |

**Atodlen 2**

| **1**<br>**Ardal** | **2**<br>**Enw/Disgrifiad o'r Ffordd** | **3**<br>**Cyfeirnod Map** |
|---|---|---|
| Brynaman | Prif Ffordd yr A4069 Heol y Mynydd | AO29 |
| Cydweli | Heol Rhydymynach | V35 |
| Pen-bre | Prif Ffordd yr A484 Heol Gwscwm | W39 |
| Pont-iets | Ffordd Dosbarth II B4309 Heol Llanelli | Z34 |
| Cynheidre | Ffordd Dosbarth II y B4309 yng Nghynheidre | Z34 ac AA34 |